

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Penmachno,
Penmachno,
Betws-y-Coed,
Conwy,
LL24 0PT**

Rhif yr Ysgol: 6622086

Dyddiad yr Arolygiad: 09/03/09

gan

**Nicholas Jones
79685**

Dyddiad Cyhoeddi: 14/05/09

O dan rif contract Estyn: 1109308

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Penmachno fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Penmachno rhwng 9/03/09 a 11/03/09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Nicholas Jones . Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	6
Crynodeb	7
Argymhellion	12
Safonau	13
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	13
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	17
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	17
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	19
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	22
Arweinyddiaeth a rheolaeth	24
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	25
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	26
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	28
Saesneg	28
Gwyddoniaeth	29
Dylunio a thechnoleg	29
Hanes	30
Celf a dylunio	31
Addysg gorfforol	32
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	34
Atodiadau	35

1	Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	35
2	Data a dangosyddion ysgol	36
3	Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	37
4	Sail dystiolaeth yr arolygiad	38
5	Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	39

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Ysgol wledig yw Ysgol Penmachno sydd wedi ei lleoli ym mhentref Penmachno, ger Betws-y-coed. Yr Awdurdod Unedol (AU) yw Conwy. Mae 25 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae pump o blant yn mynychu'r dosbarth Meithrin yn rhan amser. Dechreuau'r plant yn llawn amser ym mis Medi, yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Daw tua 4 y cant o'r disgyblion o'r tu allan i ddalgyrch dynodedig yr ysgol.
- 2 Yn yr ysgol drwyddi draw, daw'r disgyblion o gefndiroedd cymdeithasol amrywiol. Pan dderbyniant fynediad, mae gan y rhan fwyaf o'r plant lefelau da o fedrau sylfaenol. Mae'r ysgol yn datgan bod tua 10 y cant o'r disgyblion yn medru hawlio pryddau bwyd ysgol di-dâl. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Nid oes unrhyw ddisgybl o dan ofal yr AU.
- 3 Mae tua 10 y cant o'r disgyblion â rhyw gymaint o anghenion addysgol arbennig, fel y'u disgrifir gan yr awdurdod addysg lleol (AALI). Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Nid oes unrhyw ddisgybl ar y gofrestr a chanddo ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), nac unrhyw ddisgybl chwaith sydd wedi ei ddatgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC).
- 4 Cymraeg yw iaith holl ddisgyblion yr ysgol. Ni chaiff unrhyw ddisgybl gymorth ar gyfer dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol. Daw'r holl ddisgyblion o gefndiroedd gwyn, Prydeinig. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn meddu ar wobwr Buddsoddwyr mewn Pobl a derbyniodd Farc Safonol yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar ddau achlysur. Y tro diwethaf i'r ysgol gael ei harolygu oedd yn nhymor y gwanwyn 2003.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 5 Noda'r ysgol y canlynol fel rhai o'i phrif dargedau:
 - datblygu rôl Cyngor yr Ysgol;
 - codi safonau mewn addysg gorfforol;
 - datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o fentrau entrepreneuriaidd;
 - diwygio cynllunio canoldymor a hirdymor mewn perthynas â Chwricwlwm 2008;
 - gweithredu'r Cyfnod Sylfaenol yn llawn;
 - datblygu gweithdrefnau asesu a chymedroli;
 - dyblygu ymhellach gynaliadwyaeth yn yr ysgol;
 - Y dimensiwn Cydwladol.

Crynodeb

- 6 Mae Ysgol Penmachno yn ysgol dda a heb unrhyw ddiffygion pwysig. Gwnaeth gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Mae'n cael ei harwain a'i rheoli'n dda.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	2
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

- 7 Roedd safonau cyflawniad y disgyblion yn y gwersi yr arsylwyd arnynt fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
15%	85%	0%	0%	0%

- 8 Mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y gwersi yn uwch na'r ffigyrau a nodir yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) 2007-2008, sef bod safonau yn dda neu'n well, gradd 2 neu radd 1, mewn 84 y cant o wersi. Mae'r gymhariaeth yn ffafriol hefyd pan ystyrir y safonau rhagorol, gradd 1, lle mae Adroddiad Blynyddol PAEM 2007-2008 yn datgan bod safonau yn rhagorol mewn 12 y cant o wersi.
- 9 Mae ansawdd gyffredinol yr addysg a ddarperir i blant o dan bump oed yn addas i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau'r ysgol gyda lefelau medrau sylfaenol da i blant o'r oed yma ac maent yn gwneud cynnydd da erbyn diwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd

Inspection Area	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Saesneg	2	2
Gwyddoniaeth	2	2
Dylunio a thechnoleg	2	2
Hanes	2	2
Celf a dylunio	2	2
Addysg gorfforol	2	2

- 10 Ni waeth beth fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol, mae'r rhan helaethaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o'r adeg pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), yn cyflawni'n dda o ystyried eu gallu a'u manau cychwyn.
- 11 Yn asesiadau cenedlaethol 2008 ar gyfer disgyblion saith mlwydd oed mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, nifer fach o ddisgyblion a gafodd yr asesiadau hyn. Roedd hyn yn wir hefyd am ddisgyblion un ar ddeg oed mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y pynciau unigol a phan gyfunir y pynciau, mae'r canlyniadau yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol, ac eithrio gwyddoniaeth. Ar gyfer disgyblion un ar ddeg oed, mae'r canlyniadau yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ym mhob un o'r pynciau, yn ogystal â phan y'u cyfunir hwy.
- 12 Ar gyfer disgyblion saith oed, pan gymherir y canlyniadau ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion sy'n gallu hawlio prydau ysgol di-dâl, mae'r canlyniadau yn 2008 yn gosod yr ysgol yn y 25 y cant uchaf o ysgolion cyffelyb iddi mewn gwyddoniaeth, ac yn y 25 y cant isaf o ysgolion cyffelyb iddi mewn Cymraeg a mathemateg, yn ogystal â phan gyfunir y pynciau.
- 13 Ar gyfer disgyblion un ar ddeg oed, pan gymherir y canlyniadau ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion sy'n gallu hawlio prydau ysgol di-dâl, mae'r canlyniadau yn 2008 yn gosod yr ysgol yn y 25 y cant uchaf o ysgolion cyffelyb iddi mewn Cymraeg, yn yr 50 y cant isaf o ysgolion cyffelyb iddi mewn mathemateg, ac yn yr 50 y cant uchaf o ysgolion cyffelyb iddi mewn Saesneg, yn ogystal â phan gyfunir y pynciau.

- 14 Rhaid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau hyn. Mae perfformiad un disgybl yn arwyddocaol yn y modd y mae'n effeithio ar y darlun cyflawn, a hynny am fod niferoedd y disgyblion yn fach yn y grwpiau blwyddyn.
- 15 At ei gilydd, mae datblygiad cyffredinol y disgyblion yn y medrau allweddol yn meddu ar nodweddion da a dim diffygion pwysig. Yn y Cyfnod Sylfaen a'r ddau gyfnod allweddol, mae safonau a chynnydd y disgyblion yn y medrau allweddol sy'n cynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn meddu ar nodweddion da a dim diffygion pwysig.
- 16 Mae medrau mathemategol, datrys problemau, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn ogystal â medrau ymresymu yn dda. Nid yw medrau ymholi'r disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae medrau dwyieithog yn dda. Mae gwybodaeth y disgyblion am dreftadaeth a diwylliant Cymru, sef 'Y Cwricwlwm Cymreig', yn meddu ar nodweddion da a dim diffygion pwysig.
- 17 Mae dealltwriaeth bersonol, gymdeithasol a moesol y disgyblion yn dda. Mae eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol yn dda. Mae'r ddealltwriaeth sydd gan y disgyblion bron i gyd o sut y gallant wella eu gwaith yn meddu ar nodweddion da sy'n gorbwysu diffygion.
- 18 Mae'r holl ddisgyblion yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd, ac mae hon yn nodwedd dda iawn a berthyn i'r ysgol. Ceir ymddygiad ac agwedd dda gan ddisgyblion o bob oed, yn ystod y gwersi ac yn ystod amser chwarae.
- 19 Mae lefel presenoldeb ar gyfartaledd o gwmpas 94 y cant. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob ysgol. Mae prydlondeb ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac yn dilyn amserau egwyl yn dda.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	79%	0%	0%	0%

- 20 Mae'r ffigyrau hyn yn cymharu'n dda gyda'r darlun cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer 2007-2008, lle barnwyd bod ansawdd cyffredinol yr addysgu mewn ysgolion cynradd o safon gradd 2 neu'n well na hynny yn 83 y cant o'r gwersi, a bod nodweddion rhagorol yn 16 y cant o'r gwersi. Canfuwyd bod nodweddion rhagorol yn hanner y gwersi a arsylwyd yn y Cyfnod Sylfaenol a chyfnod allweddol 1.
- 21 Mae'r nodweddion rhagorol a welir yn yr addysgu'n cynnwys:
 - gweithgareddau symbylus a heriol i'r holl ddisgyblion;
 - cydbwysedd da rhwng gweithgareddau plentyn-ddewisol a gweithgareddau athrogyfeiriol;
 - defnydd effeithiol o'r staff cymorth;
 - gwybod pryd i ymyrryd yn y dysgu a phryd i ymatal rhag ymyrryd;

Mae'r nodweddion da a welir yn yr addysgu'n cynnwys:

- rhediad da i'r gwersi;
 - amcanion clir i'r sesiynau;
 - holi da ac esboniadau clir;
 - darparu tasgau gwahaniaethol i ymateb yn briodol i ddisgyblion â gwahanol anghenion.
- 22 Mae cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo'n dda yn yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn cael eu trin yn gyfartal beth bynnag yw eu rhyw, hil neu anabledau. Mae'r athrawon yn herio delweddau ystrydebol yn effeithiol.
- 23 Mae'r gyfundrefn i asesu cynnydd y disgyblion a chofnodi ac adrodd am gyflawniadau'r disgyblion yn cynnwys nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Ceir asesu rheolaidd er mwyn dilyn cynnydd y disgyblion. Fe'i defnyddir er mwyn dylanwadu ar y camau nesaf yn yr addysgu a'r dysgu. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn datblygu gweithdrefnau i gynnwys disgyblion yn y broses o ddeall pwrpas asesu ac i gymryd rhan fwy gweithredol wrth iddynt gynllunio eu cynnydd a'u gwelliant eu hunain. Mae hefyd yn datblygu gweithdrefnau cymedroli i gynorthwyo'r broses o ddyfarnu lefelau cywir i waith y disgyblion. Mae'r adroddiadau i rieni o ansawdd da. Maent yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi darlun clir o gyflawniadau ac ymdrechion y disgyblion.
- 24 Mae cwricwlwm yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn ogystal â'r maes llafur addysg grefyddol y cytunwyd arno yn lleol. Mae'n briodol eang a chytbwys. Mae'n diwallu anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- 25 Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi gan amrywiaeth dda o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol a chan ymweliadau addysgol i leoedd o ddiddordeb. Caiff amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol eu darparu o fewn a thu allan i'r diwrnod ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn a phob maes o fewn y cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl fel ei gilydd. Mae cysylltiadau cydwladol yr ysgol yn nodwedd ragorol. Fodd bynnag, nid yw rôl cyngor yr ysgol wedi cael ei datblygu'n ddigonol.
- 26 Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy yn dda ac mae datblygiad eu medrau entrepreneuriaidd yn meddu ar nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau dwyieithog y disgyblion yn dda gyda dim diffygion pwysig.
- 27 Mae ansawdd gofal, cymorth a chyfarwyddyd yn dda. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Darpara'r ysgol amgylchedd hapus a gofalgar. Mae'r trefniadau ar gyfer derbyn plant yn y blynyddoedd cynnar ac ar gyfer trosglwyddo disgyblion i addysg uwchradd yn fanwl ac yn effeithiol.
- 28 Mae gan yr ysgol drefniadau clir a dogfennaeth gyflawn sy'n cyfrannu tuag at les y disgyblion. Mae'r polisiâu amddiffyn plant yn cydymffurfio â'r arfer argymelledig gyfredol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau sydd wedi eu cynllunio a'u dogfennu'n dda ar gyfer ymdrin â chydraddoldeb hiliol, anabled, gwahaniaethu a chyfleoedd cyfartal.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 29 Mae'r pennaeth yn arwain yn effeithiol. Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn meddu ar nodweddion da gyda dim diffygion pwysig. Mae disgwyliadau a gobeithion uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion yn flaenllaw yng ngweledigaeth yr ysgol. Gweithreda'r arweinwyr a'r rheolwyr strwythurau rheoli da ar bob lefel yn yr ysgol.
- 30 Cymer yr ysgol sylw gofalus o flaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol. Cafodd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ei reoli'n drylwyr a synhwyrol.
- 31 Mae'r corff llywodraethu'n gweithio'n agos gydag arweinyddiaeth broffesiynol yr ysgol. Mae cadeirydd a'r llywodraethwyr unigol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion hirdymor yr ysgol ac mae'r modd y maent yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol yn dda.
- 32 Mae'r broses hunanwerthuso yn drylwyr. Fe'i seilir yn gyffredinol ar dystiolaeth o lygad y ffynnon. Caiff barn pob un sy'n ymwneud â'r ysgol ei hystyried.
- 33 Mae dogfen hunanwerthuso'r ysgol yn dylanwadu'n llawn ar Gynllun Datblygu'r Ysgol (CDY). Mae'r CDY yn ddogfen weithio dda sy'n cael ei chyfuno gyda rhaglen rheoli perfformiad yr ysgol.
- 34 Mae hunanwerthusiad yr ysgol yn gywir o safbwynt y graddau, a chytuna'r tîm arolygu gyda'r hyn a ganfyddir gan yr ysgol fel ei phrif gryfderau a'i gwendidau. Ers yr arolygiad diwethaf yn 2003, mae cynnydd yr ysgol yn meddu ar nodweddion da a dim dffygion.
- 35 Mae'r ysgol wedi ei staffio'n dda gan athrawon hollol gymwys a phrofiadol. Mae'r modd y defnyddir y staff cymorth yn nodwedd ragorol a berthyn i'r ysgol. Mae bywyd beunyddiol yr ysgol yn cael ei drefnu'n effeithiol, ac mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned.
- 36 Mae'r ysgol yn lân ac yn cael gofal da. Mae'n darparu ystafelloedd addas i'r holl ddisgyblion. Mae'r defnydd o ystafelloedd yn y cyfnod sylfaen yn dda. Caiff yr amgylchedd y tu allan i'r ysgol ei ddefnyddio'n dda. Mae'r ysgol yn defnyddio a threfnu ei hadnoddau addysgu'n dda.
- 37 Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol yn y meysydd a arolygwyd, dyletswydd y staff a'r corff llywodraethu yw:

- A1 gwella medrau ymholi'r disgyblion hynaf mewn gwyddoniaeth a mathemateg;
- A2 sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol yn y broses o osod targedau iddynt eu hunain;
- A3 datblygu ymhellach weithdrefnau asesu, trwy gynnwys ynddynt y broses o gymedroli cyflawniadau'r disgyblion;
- A4 datblygu rôl cyngor yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 38 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunanwerthuso.
- 39 Roedd safonau cyflawniad y disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
15%	85%	0%	0%	0%

- 40 Mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y gwersi yn uwch na'r ffigyrau a nodir yn Adroddiad Blynyddol PAEM 2007-2008 lle mae safonau'n dda neu'n well na hynny, gradd 2 neu radd 1, yn 84 y cant o'r gwersi. Mae'r gymhariaeth hefyd yn ffafriol pan ystyrir safonau rhagorol, gradd 1, lle mae Adroddiad Blynyddol PAEM 2007-2008 yn datgan bod safonau'n rhagorol yn 12 y cant o'r gwersi.
- 41 Mae ansawdd gyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant o dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau'r ysgol gyda lefelau da o fedrau sylfaenol fel sy'n gweddu i blant o'u hoedran, ac maent yn gwneud cynnydd da erbyn diwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

Graddau pwnc ar gyfer y pynciau a arolygwyd

Maes Arolygu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Saesneg	2	2
Gwyddoniaeth	2	2
Dylunio a thechnoleg	2	2
Hanes	2	2
Celf a dylunio	2	2
Addysg gorfforol	2	2

- 42 Ni waeth beth fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol, mae'r disgyblion i gyd yn gwneud cynnydd da o'r adeg pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cyflawni'n dda o ystyried eu gallu a'u manau cychwyn.

- 43 Mewn gwyddoniaeth, mae asesiadau cenedlaethol 2008 i ddisgyblion saith oed yn dangos bod y canlyniadau yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mewn Cymraeg a mathemateg, yn ogystal â phan gyfunir y canlyniadau yn y tri phwnc hyn, mae'r canlyniadau yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Yn y canlyniadau hyn, ni cheir gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn.
- 44 Pan gymherir y canlyniadau gydag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion sy'n medru hawlio prydau ysgol di-dâl, mae canlyniadau 2008 mewn gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 25 y cant uchaf o ysgolion cyffelyb iddi. Mewn Cymraeg, mathemateg ac yn ogystal â phan gyfunir y pynciau, mae'r ysgol wedi ei gosod yn y 25 y cant isaf o ysgolion cyffelyb iddi.
- 45 Ar gyfer disgyblion un ar ddeg oed, mae canlyniadau 2008 yn dangos bod y canlyniadau'n uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Perfformia'r merched yn well na'r bechgyn mewn Saesneg, ond perfformia'r bechgyn yn well na'r merched mewn gwyddoniaeth a phan gyfunir y pynciau.
- 46 Pan gymherir y canlyniadau ar gyfer disgyblion un ar ddeg oed ag ysgolion sydd â chyfran debyg o ddisgyblion sy'n medru hawlio prydau bwyd ysgol di-dâl, mae canlyniadau 2008 mewn gwyddoniaeth a Chymraeg yn gosod yr ysgol yn y 25 y cant uchaf o ysgolion cyffelyb. Mewn Saesneg a phan gyfunir y pynciau, gosodir yr ysgol yn yr 50 y cant uchaf o ysgolion cyffelyb. Mewn mathemateg, gosodir yr ysgol yn yr 50 y cant isaf o ysgolion cyffelyb iddi.
- 47 Yn 2006, ag ystyried disgyblion saith oed, roedd canlyniadau'r tri phwnc unigol a phan y'u cyfunwyd, yn gosod yr ysgol yn y 25 y cant isaf o ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion yn medru hawlio prydau bwyd ysgol di-dâl. Yn 2007, roedd canlyniadau'r tri phwnc unigol a phan y'u cyfunwyd, yn gosod yr ysgol yn y 25 y cant uchaf o ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion yn medru hawlio prydau bwyd ysgol di-dâl. Ar gyfer disgyblion un ar ddeg oed, yn 2006, roedd yr ysgol yn y 25 y cant uchaf o ysgolion cyffelyb mewn Cymraeg a gwyddoniaeth, yn yr 50 y cant isaf mewn Saesneg, ac yn y 25 y cant isaf mewn mathemateg a phan gyfunwyd y pynciau. Yn 2007, roedd yr ysgol yn y 25 y cant uchaf o ysgolion cyffelyb mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a phan gyfunwyd y pynciau ac yn yr 50 y cant isaf mewn Cymraeg.
- 48 Pan gymherir y ddwy set o ganlyniadau gyda'r asesiadau a wnaed pan ymunodd y disgyblion unigol hyn â'r ysgol, dangosant fod gwerth da yn cael ei ychwanegu at gyflawniadau'r disgyblion a'u bod yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau hyn. Mae perfformiad un disgybl yn arwyddocaol yn y modd y mae'n effeithio ar y darlun cyflawn, a hynny am fod niferoedd y disgyblion yn fach yn y grwpiau blwyddyn.
- 49 At ei gilydd, mae datblygiad cyffredinol y disgyblion yn y medrau allweddol yn meddu ar nodweddion da a dim diffygion pwysig. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safonau a chynnydd y disgyblion yn y medrau allweddol sy'n cynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg yn meddu ar nodweddion da a dim diffygion pwysig. Mae'r disgyblion yn yr ysgol drwyddi draw yn siarad yn hyderus a chlir. Maent i gyd yn holi ac yn ateb cwestiynau'n dda ac maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac ar yr athrawon.

- 50 Mae'r disgyblion i gyd yn darllen yn dda ar gyfer pwrpasau amrywiol. Defnyddiant gyfeirlyfrau a'r Rhyngrwyd yn hyderus er mwyn dod o hyd i wybodaeth. Darllenant gyda mynegiant da a chyda lefelau da o ddealltwriaeth o amrywiaeth o destunau. Mae'r disgyblion hynaf yn meddu ar fedrau darllen uwch ac mae eu diddwythiadau a'u casgliadau ar gyfer pwrpasau penodol yn dda.
- 51 Mewn amrediad o weithgareddau mewn pynciau eraill, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n dda ar gyfer amrywiaeth eang o bwrpasau gan ddefnyddio gwahanol arddulliau a ffurfiau llenyddol yn effeithiol.
- 52 Mae medrau dwyieithog y disgyblion yn meddu ar nodweddion da a dim diffygion pwysig. Maent yn gyson yn yr ysgol drwyddi draw. Fodd bynnag, tuedda'r disgyblion i gynnal sgysiau achlysurol gyda'i gilydd drwy gyfrwng yr iaith Saesneg, a hynny hyd yn oed yn yr ystafell ddosbarth.
- 53 Mae medrau mathemategol yr holl ddisgyblion mewn pynciau eraill yn dda a heb ddiffygion pwysig. Mae hyn yn arbennig o wir am waith ymchwiliol, lle defnyddiant eu gwybodaeth o fathemateg i ymchwilio'n ofalus ac i ganfod canlyniadau a chanfyddiadau. Nid yw medrau ymholi'r disgyblion wedi eu datblygu i gymaint graddau mewn mathemateg a gwyddoniaeth.
- 54 Mae medrau'r holl ddisgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda a heb unrhyw ddiffygion pwysig. Defnyddia disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol1 raglenni syml yn hyderus i atgyfnerthu eu gwaith mewn pynciau eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddir pecynnau celf a pheynnau iaith yn dda i gyfleu'r wybodaeth a gesglir ganddynt ac i argraffu eu darluniau. Defnyddia'r holl ddisgyblion y llygoden, y bysellfwrdd ac offer arall yn hyderus.
- 55 Mae'r disgyblion hynaf yn dda am greu, storio ac adalw eu gwaith. Maent yn cyfansoddi, drafftio, golygu ac argraffu eu gwaith yn gywir.
- 56 Mae medrau datrys problemau a medrau ymresymu'r disgyblion yn dda a heb unrhyw ddiffygion pwysig. Gydag arweiniad, mae'r disgyblion bron i gyd yn medru gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Ymatebant yn dda i sialensiau a osodir iddynt ym mhob un o'r pynciau.
- 57 Mae medrau creadigol yn dda a heb ddiffygion pwysig. Mae'r holl ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau creadigol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft mewn celf, gymnasteg a cherddoriaeth. Maent yn enghreifftio eu gwaith ac yn perfformio'n feddylgar.
- 58 Mae dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion neilltuol yn ymwneud â cherddoriaeth, celf, hanes, llenyddiaeth a thraddodiadau Cymru yn dda. Mae'r disgyblion i gyd bron yn ymwybodol o waith arlunwyr a chrefftwyr Cymreig. Maent yn gyfarwydd ag amrediad da o lèn gwerin a chwedlau Cymru.
- 59 Mae medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r holl ddisgyblion yn dda a heb unrhyw ddiffygion pwysig. Maent yn dda am ysgwyddo cyfrifoldebau o'u gwirfodd ac yn frwdfrydig.
- 60 Mae'r disgyblion bron i gyd yn ymddwyn yn dda iawn. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel a gŵyr yr holl ddisgyblion yr hyn a ddisgwyilir oddi wrthynt.

Maent bron i gyd yn gyfeillgar, cwrtais ac ystyriol. Mae'r disgyblion yn symud yn synhwyrol o fewn ac o gwmpas yr ysgol o dan oruchwyliaeth, a dengys y rhan fwyaf lefel uchel o hunanddisgyblaeth ac aeddfedrwydd. Mae eu hymddygiad yn ystod ymweliadau, yn ôl adroddiadau, yn ardderchog.

- 61 Mae'r holl ddisgyblion yn gweithio ac yn chwarae'n dda iawn gyda'i gilydd ac mae eu perthynas â'i gilydd yn dda iawn. Maent yn gwerthfawrogi cael eu gwobrwyo. Drwy gydol y diwrnod ysgol, mae'r disgyblion bron i gyd yn cydweithio'n dda mewn parau neu mewn grwpiau bychain yn ystod y gwersi ac ar adegau eraill. Mae bechgyn a merched yn gweithio ac yn chwarae'n dda gyda'i gilydd yn ystod amser cinio ac amser egwyl, yn ogystal ag mewn gweithgareddau wedi oriau'r ysgol, megis yr Urdd, Campau'r Ddraig a chlybiau coginio. Maent yn adnabod anghenion eraill ac yn cynorthwyo eu cyd-ddisgyblion gydag ystyriaeth a pharch. Mae ganddynt werthoedd moesol da.
- 62 Roedd cyfartaledd presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad yn 94 y cant, sydd yn uwch na chyfartaleddau'r AALI, y cyfartaleddau cenedlaethol, yn ogystal â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cyffelyb iddi. Mae absenoldebau'n cael eu hachosi gan salwch gan mwyaf. Mae gwyliau teuluol weithiau'n cael eu cymryd yn ystod y tymor ysgol.
- 63 Mae prydlondeb ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac yn dilyn amserau egwyl yn dda. Mae darpariaeth dda'r Clwb Brechwast sy'n bodoli yn yr ysgol, yn gymorth i sicrhau prydlondeb.
- 64 Mae dealltwriaeth y disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn dda ac mae wedi ei wreiddio'n gadarn yng ngwaith yr ysgol.
- 65 Mae gan yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth o'r hyn y dylid ac ni ddylid ei wneud. Mae gwasanaethau addoli yn yr ysgol yn ogystal â sesiynau asembli yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu hagwedd ysbrydol yn dda. Mae'r disgyblion yn deall rheolau'r ysgol a'r hyn sy'n ddisgwylidig.
- 66 Mae'r holl ddisgyblion yn llwyddiannus wrth ddatblygu sensitifrwydd tuag at anghenion eraill, gan ofalu am y rhai sy'n llai ffodus na hwynt-hwy. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o faterion diwylliannol a hiliol ac mae ganddynt wybodaeth dda am grefyddau'r byd.
- 67 Ni chafodd neb ei wahardd o'r ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 68 Mae'r ddealltwriaeth sydd gan y disgyblion bron i gyd o sut mae gwella eu gwaith eu hunain yn meddu ar nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae'r disgyblion yn datblygu strategaethau i fagu hyder fel dysgwyr annibynnol.
- 69 Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gan yr holl ddisgyblion am y gweithle a'r gymuned leol yn dda ac yn briodol i'w hoed.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

70 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunanwerthuso.

71 Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	79%	0%	0%	0%

72 Mae'r ffigyrau hyn yn cymharu'n dda gyda'r darlun cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer 2007-2008, lle barnwyd bod ansawdd cyffredinol yr addysgu mewn ysgolion cynradd o safon gradd 2 neu'n well na hynny yn 83 y cant o'r gwersi, a bod nodweddion rhagorol yn 16 y cant o'r gwersi. Canfuwyd bod nodweddion rhagorol yn hanner y gwersi a arsylwyd yn y Cyfnod Sylfaenol a chyfnod allweddol 1.

73 Mae ansawdd yr addysgu yn cyfrannu'n dda tuag at gynnydd, cyflawniad a lles y disgyblion. Mae cynllunio yn yr ysgol drwyddi draw yn sicrhau parhad, dilyniant a sylw cyflawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r meysydd dysgu.

74 Mae ansawdd y gydberthynas rhwng athrawon a disgyblion o fewn yr ysgol yn eithriadol o dda. Mae'r holl staff, gan gynnwys y staff cymorth, yn creu awyrgylch gadarnhaol a phwrpasol i alluogi'r plant i ddatblygu'n ddysgwyr da ac effeithiol. Caiff y disgyblion eu rheoli'n gadarnhaol a sensitif ac ni chaniateir iddynt aflonyddu ar eraill. Yn gyffredinol, caiff hyn effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnant ac ar ansawdd bywyd yr ysgol.

75 Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn arddangos gwybodaeth o sut mae plant ifanc yn dysgu ac maent yn gyfarwydd â'r saith maes dysgu a berthyn i'r Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

76 Wrth gynllunio'r Cyfnod Sylfaen, canolbwyntia'r athrawon yn briodol ar anghenion datblygiadol y plant gan ganiatáu lle i weithgareddau plentyn-gychwynnol. Sicrha hyn bod anghenion dysgu'r plant yn cael eu diwallu'n llwyddiannus, gan ganiatáu iddynt hwythau gael cyfle i fod yn rhan o'u dysgu eu hunain a datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Er bod y cynllunio ar gyfer y disgyblion hynaf yn nodi'r hyn fydd y disgyblion yn ei ddysgu a'i ymchwilio, nid yw bob amser yn dangos yn glir sut y bydd yr athrawon yn datblygu eu medrau ymholi. Mae hyn yn arbennig o wir mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae tasgau cartref/ysgol yn cael eu cysylltu â gwaith yn y dosbarth.

77 Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel oddi wrth y disgyblion i gyd, sy'n sicrhau eu bod bron i gyd yn cyflawni eu potensial. Yn gyffredinol, defnyddia'r athrawon ystod o strategaethau, dulliau a ffyrdd o addysgu yn llwyddiannus er mwyn ysgogi'r

disgyblion. Ceir canolbwyntio priodol ar weithgareddau ymarferol ac uniongyrchol er mwyn symbylu dysgu'r plant, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Yn y dosbarthiadau i gyd, ceir cydbwysedd da o addysgu unigolion, parau a dosbarth cyfan. Mae cymorthyddion dysgu a staff cymorth yn darparu cymorth o ansawdd arbennig o dda wrth gyflwyno'r cwricwlwm a chyfoethogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol iawn.

- 78 Mae'r nodweddion rhagorol a welir yn yr addysgu'n cynnwys:
- gweithgareddau symbylus a heriol i'r holl ddisgyblion;
 - cydbwysedd da rhwng gweithgareddau plentyn-ddewisol a gweithgareddau athro-gyfeiriol;
 - defnydd effeithiol o'r staff cymorth;
 - gwybod pryd i ymyrryd yn y dysgu a phryd i ymatal rhag ymyrryd;
- 79 Mae'r nodweddion da a welir yn yr addysgu'n cynnwys:
- rhediad da i'r gwersi;
 - amcanion clir i'r sesiynau;
 - holi da ac esboniadau clir;
 - darparu tasgau gwahaniaethol i ymateb yn briodol i ddisgyblion â gwahanol anghenion.
- 80 Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg pwysig yn y gwersi a arsylwyd.
- 81 Mae'r holl athrawon yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac ymdrinnir yn deg â phob disgybl, beth bynnag yw ei allu neu ei gefndir. Darpara'r ysgol yn dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Hyrwydda'r athrawon ddefnydd o'r Gymraeg yn dda yn ystod y diwrnod ysgol ac maent yn gydymdeimladol tuag at anghenion ieithyddol a galluoedd y disgyblion i gyd.
- 82 Mae ansawdd yr asesu yn meddu ar nodweddion da a dim diffygion pwysig. Mae gweithredu'r polisi yn gyson yn arwain at ddull cydlynol o asesu, cofnodi a pharatoi adroddiadau drwy'r ysgol yn gyfan gwbl.
- 83 Wrth gynllunio'r dysgu, mae gan yr athrawon ganfyddiadau dysgu penodol a meini prawf llwyddiant ar gyfer asesu sydd wedi eu nodi'n dda. Cymerir i ystyriaeth wybodaeth flaenorol, medrau a dealltwriaeth y disgyblion. Ym mhob achos bron, mae gwerthusiad o'r dysgu mewn un wers yn dylanwadu'n briodol ar gynllunio ar gyfer y dyfodol, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r asesiadau'n digwydd yn rheolaidd ac maent yn ddibynadwy. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn datblygu gweithdrefnau i gynnwys disgyblion yn y broses o ddeall pwrpas asesu ac ymwneud yn fwy gweithredol â chynllunio eu cynnydd a'u gwelliant eu hunain. Mae hefyd yn datblygu gweithdrefnau cymedroli i gynorthwyo gyda lefelu gwaith y disgyblion yn gywir. Cydymffurfir yn llawn â gofynion statudol.
- 84 Defnyddir ystod eang o strategaethau asesu yn effeithiol er mwyn penderfynu ar y cam dysgu nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau gwaelodlin, asesiadau athrawon, profion darllen safonedig ac arsylwadau. Ceir gweithdrefnau effeithiol a hydriin, gan gynnwys y rhai ar gyfer disgyblion ag AAA ac maent yn darparu gwybodaeth dda am gynnydd y disgyblion. Dadansoddir y canlyniadau ac fe'u defnyddir yn dda i sicrhau bod y gwaith yn cydweddu'n briodol gyda lefelau medrau'r

disgyblion. Arsylwir y disgyblion yn ofalus gan yr athrawon a'r staff cymorth a chofnodir y trafodaethau a'r sylwadau yn gyson er mwyn monitro eu cynnydd.

- 85 Defnyddir system dracio er mwyn olrhain cynnydd disgyblion unigol a darganfod anghenion unigolion. Archwilir asesiadau diwedd cyfnod allweddol i sicrhau bod y cynllunio ar gyfer y dyfodol yn briodol.
- 86 Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac yn darparu sylwadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â thargedau'r disgyblion a'r meini prawf llwyddiant. Mae strategaethau ar gyfer hunanwerthuso'n cael eu datblygu er mwyn datblygu ymhellach ddealltwriaeth y disgyblion o'r hyn y maent wedi ei gyflawni a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.
- 87 Caiff cyflawniadau ym mhob pwnc eu hadrodd i'r rhieni ac mae ansawdd yr adroddiadau'n dda. Maent yn cydymffurfio â'r anghenion statudol ac yn rhoi barn yn glir am gyrhaeddiad ym mhob un o'r pynciau a'r meysydd dysgu, yn ogystal â dathlu cyflawniadau'r plant a rhoi arweiniad ynghylch y ffordd ymlaen. Gwerthfawroga'r rhieni'r cyfleoedd a gânt i drafod datblygiad eu plant gyda'r staff yn ffurfiol bob tymor ac i ymateb i'r adroddiadau. Dywedant eu bod yn hapus gyda'r wybodaeth a ddarperir gan yr ysgol ynghylch cynnydd eu plant.
- 88 Caiff gwybodaeth berthnasol ei throsglwyddo i'r ysgol uwchradd sy'n derbyn y disgyblion pan fyddant yn symud ymlaen at y cam dysgu nesaf.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 89 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunanwerthuso.
- 90 Mae'r ysgol yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a phlant o dan bump oed. O fewn yr ethos cynhwysol ar gyfer dysgu, mae'r disgyblion i gyd yn cael mynediad cyfartal i bob un o feysydd y cwricwlwm a phob gweithgaredd a gynigir gan yr ysgol. Adlewyrchir hyn yn dda gan y lefelau uchel o ddiddordeb a ddengys yr holl ddisgyblion yn eu gwaith.
- 91 Mae'r cwricwlwm wedi ei drefnu'n dda, yn gytbwys a pherthnasol ac yn cydymffurfio â gofynion statudol. Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygu addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd y disgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn y pynciau i gyd a'r meysydd dysgu o ansawdd da ac maent yn dechrau adlewyrchu newidiadau diweddar yn y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn darparu profiadau diddorol a symbylus.
- 92 Mae ansawdd gyffredinol yr addysg a ddarperir i blant o dan bump oed yn addas i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Ceir amrediad o brofiadau dysgu sydd wedi eu cynllunio'n dda iawn er mwyn rhoi pleser a darparu profiadau dysgu ystyrlon. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar wedi ei threfnu'n dda yn dilyn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac

yn hybu dysgu trwy chwarae, y tu fewn yn ogystal â thu allan. Fel canlyniad, mae'r plant i gyd yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn dda iawn ym mhob un o feysydd y cwricwlwm.

- 93 Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau sylfaenol y disgyblion. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau sylfaenol yn cael eu cysylltu â chynllunio ac â'r cwricwlwm. Mae hwn yn faes datblygol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau yn y cwricwlwm.
- 94 Cynigia'r ysgol amrywiaeth dda o glybiau wedi oriau'r ysgol sy'n cael eu mynychu'n dda; cânt eu cynnal bob pythefnos a dilynant thema'r tymor. Maent yn hybu dysgu'r disgyblion wedi oriau'r ysgol yn effeithiol. Dywed y disgyblion eu bod yn fodlon gyda'r amrywiaeth o glybiau a gynigir gan yr ysgol, a'u bod yn cael llawer o bleser o'u mynychu.
- 95 Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o'r ddarpariaeth dda o ymweliadau yn ogystal ag ymwelwyr a ddaw i'r ysgol. Caiff y rhain ddylanwad ar ddealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith, ar safonau ac ar frwdfrydedd tuag at ddysgu. Cymerir cyfleoedd, a drefnir yn dda, i ymweld â lleoedd o ddiddordeb yn ardal yr ysgol a thu hwnt. Mae ymweliadau ac astudiaethau lleol yn cyfoethogi'r cwricwlwm. Daw ymwelwyr o'r gymuned ag arbenigedd a phrofiad cyfoethog sy'n symbylu profiad dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r pentref. Mae cysylltiadau cydwladol rhagorol yn cael eu meithrin gan yr ysgol ac mae ymweliadau tramor ac ymwelwyr o dramor yn ddigwyddiadau cyffredin. Mae'r ysgol yn meddu ar Wobr Ysgolion Cydwladol.
- 96 Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol, a diwylliannol y disgyblion yn dda a heb ddiffygion pwysig. Fe'i cynllunnir yn dda ac mae'n nodwedd dda o fywyd yr ysgol.
- 97 Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau personol ac addysg gymdeithasol yn dda. Caiff ei gynnwys yn dda ym mywyd beunyddiol yr ysgol. Rhoddir sylw priodol i addysg rhyw.
- 98 Darperir cyfleoedd da ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion. Mae'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol. Caiff y rhan fwyaf o'r disgyblion eu hannog yn weithredol i ystyried crefyddau eraill yn ogystal â'u crefydd eu hunain trwy themâu amlddiwylliannol.
- 99 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol y disgyblion yn dda. Cefnoga'r holl staff werthoedd megis tegwch a rhoddant batrymau ymddwyn da i'r disgyblion. Mae hon yn nodwedd dda o fywyd beunyddiol yr ysgol.
- 100 Darpara'r ysgol yn dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol y disgyblion ac mae hynny'n eu galluogi i gymryd rhan yng nghymuned yr ysgol. Caiff y disgyblion gyfleoedd i gydweithio gyda'i gilydd a derbyn swyddi o fewn yr ysgol lle maent yn gorfod ysgwyddo cyfrifoldeb. Cymer y disgyblion ran mewn gweithgareddau codi arian i sefydliadau elusennol ac mae hyn yn hyrwyddo'n gadarnhaol eu hymwybyddiaeth o gyfrifoldeb cymdeithasol a dealltwriaeth o'u cymuned eu hunain a chymunedau eraill. Fodd bynnag, nid yw rôl cyngor yr ysgol wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

- 101 Mae datblygiad diwylliannol yn dda. Caiff disgyblion ddealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad cynyddol o ddiwylliannau eraill. Caiff y Cwricwlwm Cymreig ei hyrwyddo'n dda trwy astudio Cymry enwog a chaiff disgyblion gyfleoedd i ddysgu am draddodiadau, diwylliant a hanes Cymru. Mae'n cael ei blethu i mewn i'r cwricwlwm yn dda
- 102 Cynhelir cysylltiadau agos ag amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol, megis arlunwyr, grwpiau theatrig a'r gwasanaethau brys. Mae'r ysgol hefyd yn mwynhau partneriaethau gweithiol effeithiol gydag ysgolion lleol eraill, gan gynnwys yr ysgol uwchradd y datblygwyd trefniadau trosglwyddo da gyda hi. Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol uwchradd ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn dda. Mae trefniadau da'n bodoli gyda Dolgarrog, y canolfan iaith, i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n hwyrdyfodiaid i'r ysgol ac sydd heb unrhyw wybodaeth o'r iaith Gymraeg.
- 103 Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r rhieni yn dda iawn ac yn nodwedd gref. Mae rhieni'n wybodus iawn am yr ysgol. Cânt gyfleoedd cyson i gyfarfod yr athrawon er mwyn trafod gwaith a chynnydd eu plant, ac yn ôl adroddiadau, mae'r cyfarfodydd yn cael eu mynychu'n dda. Dywed y rhieni fod polisi drws agored yn bodoli yn yr ysgol.
- 104 Cafwyd ymateb gweddol dda i'r holiaduron a anfonwyd at y rhieni cyn yr arolygiad a dychwelwyd tua chwarter ohonynt wedi eu cwblhau. Dangosodd yr ymateb fod y rhieni a'r gofalgwyr bron i gyd yn gefnogol o'r ysgol, ac yn fodlon gyda'r safonau y mae eu plant yn eu cyflawni o fewn amgylchedd gofalgar a chefnogol.
- 105 Y mae gwybodaeth y disgyblion am fyd gwaith y tu hwnt i lidiart yr ysgol yn meddu ar nodweddion da, a hynny er bod cyfleoedd yn brin. Darpara ymweliadau addysgol ac ymweliadau gan ymwelwyr gyfleoedd i ehangu a chyfoethogi profiad y disgyblion o addysg sy'n gysylltiedig â byd gwaith.
- 106 Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac mae'n hybu'n weithredol bob agwedd ar gydraddoldeb. Mae hon yn nodwedd dda a berthyn i'r ysgol. Caiff stereoteipio ei herio pan gaiff ei ganfod. Mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol yn sicrhau modd i gynorthwyo disgyblion sydd o dan anfantais yn gymdeithasol. Caiff yr holl ddisgyblion eu trin fel unigolyn; fe'u hanogir i gymryd rhan yn llawn yn yr holl weithgareddau, ac ni waherddir unrhyw ddisgybl rhag cymryd rhan un ohonynt.
- 107 Mae safonau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda ac mae'r ysgol yn cymryd rhan yn y fenter Eco-Ysgolion ac wedi derbyn y wobwr Efydd.
- 108 Mae'r ysgol yn gosod seiliau ar gyfer dysgu gydol-oes yn dda. Adlewyrchir blaenoriaethau cenedlaethol yn dda ym mywyd yr ysgol. Mae'r flaenoriaeth a roddir i ddisgyblion sy'n datblygu annibyniaeth ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u lles eu hunain yn faes sy'n cael ei ddatblygu; fel sy'n wir hefyd am fedrau entrepreneuriaidd y disgyblion sydd ar hyn o bryd heb eu datblygu'n ddigonol.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 109 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunanwerthuso.
- 110 Rhydd y pennaeth a'r staff flaenoriaeth uchel i ofal bugeiliol drwy'r ysgol yn gyfan gwbl a darparant ofal, arweiniad a chymorth da ar gyfer y disgyblion. Mae'r staff yn llwyddo i greu amgylchedd digynnwrf, gofalgwr a chefnogol lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a lle cânt eu parchu. Mae ysbryd cymunedol da ac mae'r staff a'r disgyblion yn groesawgar i ymwelwyr.
- 111 Cydweithia'r ysgol mewn partneriaeth lawn a chynhyrchiol gydag amrediad o asiantaethau a gwasanaethau cynnal i sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu hasesu a'u diwallu. Mae hyn yn llesol i'r holl ddisgyblion.
- 112 Mae gan yr ysgol bartneriaethau gweithredol effeithiol gyda rhieni a gofalwyr a chyfranna hynny'n sylweddol tuag at ansawdd y cymorth a'r arweiniad a gynigir i'r disgyblion. Gwrendy'r ysgol yn ofalus ar rieni a gofalwyr a chymerir sylw o'u barn.
- 113 Mae'r gweithdrefnau sefydlu i ddisgyblion sy'n derbyn mynediad i'r ysgol, yn newid dosbarth neu'n symud i ysgol uwchradd, yn effeithiol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn ymsefydlu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd. Mae'r ifancaf, y plant sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan amser, yn ymgartrefu'n dda ac maent yn hapus a diogel yn eu gwaith a'u chwarae.
- 114 Darpara'r ysgol gymorth personol ac arweiniad da i'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn hyderus i ofyn am gymorth a chefnogaeth gan y staff; trônt yn barod at oedolion am gymorth; gwrandewir arnynt a chânt eu trin ag ystyriaeth ac â pharch. Mae ansawdd y berthynas rhwng y staff a'r disgyblion yn dda ac mae'n cyfrannu'n dda iawn tuag at ymddygiad a hunan-barch cadarnhaol y disgyblion.
- 115 Caiff y disgyblion fynediad i raglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) effeithiol, a luniwyd yn unol â'r argymhellion cenedlaethol.
- 116 Caiff presenoldeb, prydlondeb, ymddygiad a pherfformiad y disgyblion eu monitro'n dda.
- 117 Mae polisi ymddygiad yr ysgol yn gweithio'n dda ac mae'r athrawon yn fedrus wrth reoli ymddygiad disgyblion.
- 118 Mae'r athrawon dosbarth yn monitro perfformiad academaidd yn gyson ac mae'r disgyblion yn dechrau cymryd rhan fwy gweithredol yn y broses o osod targedau personol iddynt eu hunain gan ddeall a chynllunio eu cynnydd. Mae hwn yn ddatblygiad diweddar iawn.
- 119 Mae gan yr ysgol bolisiâu a gweithdrefnau clir ar gyfer hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles, gan gynnwys asesiad risg. Cymerir pob mesur rhesymol i sicrhau bod y staff a'r disgyblion yn gweithio mewn amgylchedd diogel.

- 120 Caiff y disgyblion eu goruchwyllo'n dda drwy'r amser. Cyfranna'r staff ategol a'r staff cymorth yn dda tuag at les y disgyblion yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae trefniadau wedi eu sefydlu'n dda ar gyfer gweithredu driliau tân, ymateb i ddamweiniau ac achosion brys, yn ogystal â gweini moddion.
- 121 Gwna'r ysgol bob ymdrech i hyrwyddo bwyta'n iach a byw bywyd iach. Anogir disgyblion i fwyta'n iach ac maent wedi derbyn y ddeilen gyntaf o'r rhaglen Ysgolion iach. Caiff disgyblion fynediad i amrywiaeth dda o weithgareddau corfforol a chwaraeon, sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles.
- 122 Mae gan yr ysgol fesurau priodol i ymdrin ag apeliadau a chwynion er mwyn hyrwyddo amddiffyn plant. Mae gan y pennaeth gyfrifoldebau dynodedig parthed materion yn ymwneud ag amddiffyn plant a cheir llywodraethwr enwebedig. Dilynir canllawiau cenedlaethol ar gyfer amddiffyn plant; caiff hyfforddiant ei ddiweddarau'n gyson a hysbysir pob oedolyn yn yr ysgol ynglŷn â'r dulliau gweithredu priodol.
- 123 Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn dda. Caiff y rhai ag anghenion penodol eu canfod yn gynnar trwy asesiadau gwaelodlin ac asesiadau wrth dderbyn mynediad i'r ysgol, a gwneir trefniadau effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gweithdrefnau cyfeirio'r AALI, ac yn glynu'n agos at y Cod Ymarfer. Mae'r aelod dynodedig o'r corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb dros AAA yn wybodus iawn am y materion hyn ac mae'n cynorthwyo'r rhaglen ddysgu sydd yn yr ysgol.
- 124 Darperir cynllun addysgol unigol (CAU) ar gyfer pob disgybl sydd ag AAA. Mae'r CAU yn cynnwys targedau realistig ac yn amlinellu'r strategaethau addysgol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni. Gwna'r athrawon ddefnydd da o'r cynlluniau hyn. Cynhelir cyfarfodydd adolygu ac mae'r ysgol yn cynnwys y rhieni ac yn eu hannog i gynorthwyo eu plant gartref.
- 125 Cynorthwyr disgyblion ag AAA yn dda gan yr athrawon dosbarth a'r cymorthyddion addysgu. Mae'r staff cymorth yn tynnu grwpiau allan er mwyn cynnal sesiynau buddiol sy'n galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd ieithyddol da. Caiff anghenion disgyblion ag anableddau eu hystyried yn ofalus.
- 126 Ceir cysylltiadau da â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cynorthwyo darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag AAA yn effeithiol os bydd angen.
- 127 Darpara'r ysgol gymorth da i ddysgwyr y gall eu hymddygiad atal eu cynnydd hwy a chynnydd eraill, a cheir dull cyson a chadarnhaol o reoli ymddygiad. Mae rheolau'r ysgol a rheolau'r dosbarth yn ogystal â systemau gwobrwyo yn sicrhau diwylliant sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol.
- 128 Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd cyfartal yn dda. Mae'r ysgol yn cydnabod yr amrywiaeth sydd yng nghefnidiroedd y disgyblion ac yn ystyried hynny wrth gynllunio a darparu cymorth a chyfarwyddyd. Mae'r athrawon yn herio stereoteipiau'n fedrus ac yn sicrhau bod bechgyn a merched yn derbyn cyfleoedd cyfartal yn y dosbarth ac yn cael mynediad cyfartal i'r holl gyfleusterau eraill o fewn yr ysgol.

- 129 Mae cydberthynas hiliol dda yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus ac mae'r ysgol yn gwerthfawrogi a pharchu amrywiaeth. Mae dogfennaeth o ansawdd da yn tanategu'r arfer da hwn.
- 130 Mae'r ysgol wedi gwneud pob trefniant rhesymol i sicrhau triniaeth gyfartal i ddisgyblion anabl ac i groesawi ymwelwyr anabl i'r ysgol. Cynhyrchodd yr ysgol gynllun hygyrchedd o safon dda, yn ogystal â chynllun cydraddoldeb anabledd er mwyn arddangos sut bydd y staff yn gwneud gwelliannau o safbwynt sicrhau mynediad i'r cwricwlwm, mynediad corfforol, yn ogystal â darparu gwybodaeth i bersonau anabl.
- 131 Mae'r mesurau a gymerir i ddileu ymddygiad gormesol gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil, bwlio a phob math arall o aflonyddu yn effeithiol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 132 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunanwerthuso.
- 133 Mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli'n dda. Mae ansawdd yr holl arweinwyr a'r rheolwyr ar wahanol lefelau yn yr ysgol yn dda. Mae'r ysgol yn gymuned bwrpasol ac mae'r sianelau cyfathrebu ymhlith y staff yn effeithiol.
- 134 Mae gan y pennaeth ac aelodau eraill o'r staff weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar godi safonau. Mae'r ddau athro yn aelodau blaenweithgar o'r corff llywodraethu ac mae ganddynt berthynas dda gyda'r rhieni. Mae disgwiliadau a gobeithion uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion yn flaenllaw yn eu gweledigaeth.
- 135 Mae polisïau a dulliau gweithredu'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd yn dda. Adlewyrchir y rhain ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n gymuned drefnedig lle mae pob disgybl yn cael ei barchu a lle mae pawb yn cael mynediad cyfartal i bopeth a gynigia'r ysgol. Cyfranna'r staff tuag at ethos gofalgwr yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac agwedd y disgyblion.
- 136 Ceir trefniadau priodol, pan fo angen, i gynorthwyo athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon sy'n newydd i'r ysgol.
- 137 Cymer yr ysgol sylw gofalus o flaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol. Roedd y paratodau ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn drylwyr a synhwyrol ac maent yn awr yn cael eu rheoli'n dda gan yr athrawon a'r corff llywodraethu.
- 138 Mae'r tir y tu allan i'r ysgol wedi ei ddatblygu a gwneir defnydd ohono gan yr ysgol i ddarparu cyfleoedd dysgu ychwanegol i'r disgyblion i gyd. Gwneir y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd materion amgylcheddol a'r angen i feithrin ffordd iach o fyw. Mae gan yr ysgol glybiau allgyrsiol da.

- 139 Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i'r pennaeth adolygu cynnydd y mentrau y mae'r ysgol yn ymgymryd â hwy. Mae hyn yn cael ei weithredu'n briodol a chywir. Mae'r ysgol yn casglu data o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn ei ddadansoddi'n dda.
- 140 Mae Rheoli Perfformiad wedi ei sefydlu'n gadarn ac mae disgrifiadau swyddi'n nodi swyddogaethau a thasgau penodol y staff. Mae gan y pennaeth amcanion cytunedig sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r staff i gyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'u disgrifiadau swyddi.
- 141 Ceir cymorth a hyfforddiant da ar gyfer holl aelodau'r staff a'r corff llywodraethu ac mae wedi ei gysylltu â datblygiad yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i'r staff a'r llywodraethwyr ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach trwy gyfrwng cyfleoedd hyfforddi priodol a chanolbwyntiedig, sy'n cael eu trefnu'n bennaf gan yr AALI.
- 142 Mae'r cysylltiadau rhwng y corff llywodraethu a'r ysgol yn dda. Mae'r corff llywodraethu, gan weithio'n effeithiol gyda'r pennaeth, yn cynorthwyo i osod cyfeiriad hirdymor i'r ysgol mewn modd strwythuredig. Mae'r llywodraethwyr yn wybodus iawn ynghylch proses hunanwerthuso'r ysgol ac maent wedi dilyn canllawiau a osodwyd gan yr AALI yn effeithiol. Mae eu cyfraniad tuag at gynllunio strategol yr ysgol yn dda. Mae'r modd y caiff ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol ei monitro gan y llywodraethwyr yn dda.
- 143 Mae'r llywodraethwyr yn galw'r arweinyddiaeth broffesiynol i gyfrif yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol bolisiâu cyfredol sy'n ymwneud â'r agweddau amrywiol a berthyn i fywyd yr ysgol. Caiff y rhain eu hystyried a'u diweddarau'n gyson gan y llywodraethwyr. Cydymffurfir â'r holl ofynion statudol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 144 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunanwerthuso.
- 145 Mae'r broses hunanwerthuso yn dda. Yn y rhan fwyaf o agweddau yn ymwneud â bywyd yr ysgol, mae'r pennaeth, yr uwch-reolwyr a'r llywodraethwyr yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i wneud gwelliannau. Mae'r cysylltiad rhwng y broses o hunanwerthuso a'r broses o gynllunio ar gyfer gwelliant yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol CDY) yn drylwyr. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro safonau, yn seiliedig ar dystiolaeth eglur, yn meddu ar nodweddion da.
- 146 Mae'r holl staff yn cymryd rhan yn y broses fonitro. Mae'r broses fonitro sy'n rhoi sylw i'r safonau a gyflawnna'r disgyblion yn dda; fodd bynnag, nid yw'r modd y safonir cyflawniadau'r disgyblion wedi ei sefydlu cystal, ac y mae'n agwedd sy'n cael ei datblygu yn yr ysgol.
- 147 Defnyddia'r ysgol ddata perfformiad i lunio barn a gwerthuso tueddiadau penodol dros gyfnod o amser. Mae hwn yn arfer da. Seilir yr hunanwerthuso ar dystiolaeth o lygad y ffynnon, ac mae'r ysgol yn cydweithredu'n effeithiol gyda'r AALI i dargedu

meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol yn dda am ddarganfod barn amrywiaeth o asiantaethau sydd â diddordeb yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y rhieni.

- 148 Gweithia'r holl staff yn ddiwyd. Maent yn ymwybodol bod iddynt ran ym mhroses hunanwerthuso'r ysgol a bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi.
- 149 Mae ansawdd yr adroddiad hunanwerthuso a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn dda. Mae'n fanwl ac yn targedu meysydd i'w datblygu. Rhydd drosolwg da o sefyllfa'r ysgol. Noda'r meysydd a'r agweddau sy'n gryfderau yn yr ysgol yn ogystal â'r rhai sydd angen sylw pellach.
- 150 Mae dyfarniadau'r tîm arolygu yn cytuno â hunanwerthusiad yr ysgol ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.
- 151 Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer sicrhau gwelliant yn dylanwadu ar y CDY yn dda ac maent yn nodi'r raddfa amser priodol yn ogystal â chostau.
- 152 Gwna'r ysgol ymdrechion da i ddarganfod mesuryddion i werthuso ei pherfformiad. Defnyddia ddata cenedlaethol a lleol i dargedu meysydd sydd â chryfderau neu ddiffygion. Mae'n cydweithio gyda'r AALI i ddyrannu adnoddau ac arbenigedd i godi a gwella safonau. Er enghraifft, mae gweithred yr ysgol yn sefydlu safleoedd y tu allan wedi arwain at welliannau da yn y ddarpariaeth gwricwlaidd ar gyfer y disgyblion i gyd.
- 153 Mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf ac mae'r gwelliannau yn amlwg yn y meysydd yr oedd angen eu datblygu. Mae'r cynnydd ers yr arolygiad diwethaf yn dda a heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 154 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunanwerthuso.
- 155 Mae'r digonolrwydd, yr addasrwydd a'r defnydd a wneir o staffio, adnoddau dysgu ac ystafelloedd yn dda. Er mai ysgol fach, wledig yw hon, mae'r modd y defnyddir y staff yn nodwedd ragorol. Mae gan yr ysgol adnoddau da ac mae'n sicrhau bod yr adnoddau a brynir yn cael eu blaenoriaethu yn ôl yr angen amdanynt. Mae'n effeithiol yn ei defnydd o gyllid ychwanegol ac mae'n defnyddio'r staff a'r aelodau'n effeithiol i gyflawni gofynion rheoliadau ariannu.
- 156 Ceir digon o athrawon gyda chymwysterau da sy'n meddu ar ystod dda o wybodaeth arbenigol i ddarparu ar gyfer anghenion y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â'r plant o dan bump oed.
- 157 Mae'r staff i gyd yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd diogel i'r holl ddisgyblion. Mae'r cynorthwyyr addysgu yn cynorthwyo'r athrawon a'r holl ddisgyblion yn llwyddiannus iawn trwy gydol y diwrnod ysgol, ac maent yn aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol. Mae hwn yn arfer rhagorol.

- 158 Gwneir defnydd effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael. Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad parod i amrediad o adnoddau da sy'n briodol i'w hoed a'u hanghenion. Gwnaed buddsoddiad da mewn adnoddau TGCh. Defnyddir y cyfrifiaduron a'r byrddau gwyn rhyngweithiol yn dda i gynorthwyo dysgu'r plant.
- 159 Mae'r ardaloedd llyfrgellool wedi eu lleoli'n dda ac wedi eu datblygu'n dda mewn perthynas ag oed ac anghenion y disgyblion a chânt eu defnyddio'n dda.
- 160 Mae'r defnydd a wneir o'r amgylchedd dysgu y tu allan, gan gynnwys tir yr ysgol, yn cyfoethogi profiadau pob disgybl ac mae'n nodwedd dda iawn o ddarpariaeth yr ysgol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o adnoddau y tu allan i'r ysgol er mwyn cyfoethogi 'r cwricwlwm.
- 161 Mae'r ystafelloedd yn dra digonol ar gyfer nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr, ac maent yn cael eu cadw'n lân ac yn cael eu cynnal yn dda. Gwna'r pennaeth a'r staff ddefnydd creadigol o'r adeilad i ddarparu amgylchedd croesawgar a chynnes i'r holl ddisgyblion. Mae hyn yn arbennig o wir am y Cyfnod Sylfaen. Mae ansawdd yr arddangosfeydd drwy'r ysgol i gyd yn dda. Fe'u defnyddir yn dda i ddathlu cyflawniadau'r disgyblion ac maent yn cynorthwyo'r dysgu'n effeithiol.
- 162 Y tu allan, mae'r ysgol yn elwa o gael lleoedd chwarae gydag arwynebedd caled yn ogystal â lleoedd gyda phorfa. Mae'r lleoedd penodol y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen o ansawdd da ac maent yn cynnwys amrywiaeth dda o offer chwarae.
- 163 Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i dyletswydd yn ôl y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2005) ac mae ganddi gynllun hygyrchedd priodol sy'n ystyried ffyrdd o wella mynediad i bawb.
- 164 Defnyddir profiad ac arbenigedd y staff yn dda er lles y disgyblion. Mae rhaglen briodol ar gyfer datblygiad y staff yn galluogi athrawon i ddiweddarau eu gwybodaeth am fentrau addysgol cyfredol yn ogystal â derbyn syniadau newydd yn eu pynciau ac mewn meysydd eraill o gyfrifoldeb.
- 165 Gwna'r athrawon ddefnydd da o'r amser a ganiateir i gynllunio, paratoi ac asesu (CPA) i ddatblygu gwaith ar gyfer eu dosbarthiadau a'u meysydd o gyfrifoldeb. Defnyddir adnoddau'n dda at ddibenion ailfodelu'r gweithlu.
- 166 Mae gweithdrefnau gweinyddol yr ysgol yn sicrhau ei bod yn cael ei rhedeg yn effeithlon o ddydd i ddydd. Mae'r holl staff ategol, megis y gofalwr, goruchwylwyr canol dydd, staff y ffreutur a'r glanhawyr yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad i fywyd yr ysgol.
- 167 Mae penderfyniadau ynghylch gwario wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol (CDY). Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus gan y Corff Llywodraethu ac mae'r ffigyrau gwarged yn rhan o gynllunio hirdymor mewn perthynas â staffio. Caiff canlyniadau penderfyniadau gwario eu hadolygu'n rheolaidd.
- 168 Mae'r ysgol yn bodloni anghenion a chyrhaeddiad yr holl ddisgyblion ac mae'n rhoi gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Saesneg

Cyfnod allweddol 1: Ddim yn berthnasol

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 169 Nid yw'r disgyblion yn dilyn rhaglenni astudio ffurfiol ar gyfer Saesneg nes cyrraedd cyfnod allweddol 2.
- 170 Yng nghyfnod allweddol 2, gwrendy'r disgyblion yn dda ar gyflwyniadau'r athrawon ac ar gyfraniadau'r disgyblion eraill. Siaradant yn glir ac yn hyderus am eu gwaith a'u profiadau gydag oedolion yn ogystal â'u cyd-ddisgyblion. Defnyddiant eirfa'n gywir i fynegi eu syniadau a'u safbwyntiau wrth gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth. Defnyddia disgyblion unigol eirfa estynedig at gyfer pwrpasau penodol.
- 171 Dechreuau'r holl ddisgyblion sylweddoli bod angen addasu eu hiaith lafar a'u goslef pan fyddant yn cymryd rhan mewn sefyllfaoedd chwarae rôl ac yn creu eu sgriptiau drama a'u storïau eu hunain.
- 172 Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, defnyddia'r holl ddisgyblion ddadleuon rhesymegol ac wedi eu rhesymu'n dda er mwyn amddiffyn safbwyntiau mewn trafodaethau grwpiau, parau a dosbarth cyflawn.
- 173 Darllena'r disgyblion i gyd amrywiaeth o lyfrau addas ac arddangosant agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen. Mae'r darllenwyr gorau'n darllen yn rhugl a chywir gyda mynegiant, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r testunau a ddarllenant. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hoff awduron a gallant ddisgrifio nodweddion llyfrau a ysgrifennwyd ganddynt. Rhoddant wybodaeth dda am y llyfrau y maent yn eu darllen.
- 174 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar uwch-fedrau darllen, sy'n eu galluogi i chwilio am wybodaeth o amryw ffynonellau megis y Rhyngryd a thestunau ffeithiol.
- 175 Ysgrifenna'r holl ddisgyblion mewn ffurfiau amrywiol ar gyfer pwrpasau gwahanol yn ôl eu hoed a'u gallu. Dangosant ddealltwriaeth dda o ffurfiau ieithyddol. Cyfansoddant waith creadigol a ffeithiol da. Gan y disgyblion hynaf, gan mwyaf, y trefnir yr ysgrifennu'n baragraffau gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Defnyddia'r disgyblion hynaf ferfau ac ansoddeiriau'n gywir a datblygant feistrolaeth dda ar gystrawen.
- 176 Ceir defnydd diddorol a chreadigol o iaith i greu effeithiau gan rai o'r disgyblion hynaf.
- 177 Mae sillafau ac atalnodi'r holl ddisgyblion yn datblygu gyda chywirdeb cynyddol.
- 178 Mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd priodol.

Diffygion

179 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 180 Mae'r holl ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn datblygu medrau gwyddonol da yn unol â'u hoed a'u gallu.
- 181 Dealla'r disgyblion bron i gyd y cysyniad o brawf teg. Maent yn rhagfynegi, gofyn cwestiynau, ymchwilio, arbrofi, cofnodi a gwerthuso eu gwaith yn dda.
- 182 Gŵyr disgyblion cyfnod allweddol 1 y gwahaniaeth rhwng pethau byw a phethau difwyd. Medrant gymharu defnyddiau a disgrifio'r priodweddau sy'n gyffredin iddynt.
- 183 Maent yn ymwybodol o ffynonellau goleuni yn yr ysgol ac yn y cartref a dangosant eu bod yn deall y cysyniadau sy'n ymwneud â lliw a sut y mae lliwiau'n cymysgu.
- 184 Mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn ymwybodol o wahanol grwpiau o fwyd a phwysigrwydd diet iach ac ymarfer corff.
- 185 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o brosesau bywyd a phethau byw. Medrant enwi gwahanol organau yn y corff a deallant sut y maent yn gweithio. Medrant enwi bwydydd iach ac maent yn ymwybodol o'r angen am ddiet iach ac ymarfer cyson. Trwy goladu canlyniadau yn dilyn gwaith ymchwil da, medrant esbonio'r modd y mae trydan yn chwarae rhan bwysig mewn bywyd bob dydd.
- 186 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion i gyd yn meddu ar wybodaeth dda am briodweddau goleuni a chysgodion a rhoddant esboniadau da o'r priodweddau hynny mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd.
- 187 Yng nghyfnod allweddol 2 defnyddia'r disgyblion dechnoleg gwybodaeth yn effeithiol i gynorthwyo eu hymchwiliadau.

Diffygion

188 Nid yw medrau ymholi'r disgyblion hynaf wedi eu datblygu'n ddigonol.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 189 Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion i gyd yn gwneud cynnydd da mewn dylunio a gwneud amrywiaeth o gynhyrchion i bwrpasau gwahanol. Datblygant eu syniadau'n effeithiol trwy drafod. Gwnânt frasluniau syml da a chofnodant y defnyddiau y credant y bydd eu hangen arnynt i wneud eu cynhyrchion.
- 190 Gwna'r holl ddisgyblion ddewisiadau da allan o ddeddoliad o ddefnyddiau wrth iddynt wneud amrywiaeth eang o gynhyrchion. Marciant a thorrant allan yn llwyddiannus a chysylltant ddefnyddiau gan ddefnyddio amrywiaeth da o dechnegau. Defnyddiant dechnegau gorffennu gwahanol i greu cynhyrchion gorffenedig o ansawdd da sy'n waith gwreiddiol, deniadol. Nodant nodweddion y maent yn eu hoffi a rhai y gellid eu gwella.
- 191 Caiff geirfa dechnegol ei defnyddio'n effeithiol yn y broses o ddylunio a chynhyrchu gan y disgyblion bron i gyd. Mae trafodaethau pwrpasol yn sicrhau bod y defnyddiau a'r cydrannau yn ateb y diben.
- 192 Yn eu gwaith dylunio a thechnoleg, mae'r holl ddisgyblion yn gwneud defnydd da o'u gwybodaeth drawsgwricwlaidd ac yn defnyddio cysyniadau gwyddonol a mathemategol wrth wneud pypedau.
- 193 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r holl ddisgyblion yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth a'u medrau. Datblygant ddealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.
- 194 Trwy gydol cyfnod allweddol 2, defnyddia'r holl ddisgyblion TGCh yn effeithiol i gynorthwyo eu gwaith mewn dylunio a thechnoleg. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i wybodaeth a gwneud gwaith ymchwil.
- 195 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r holl ddisgyblion yn ymchwilio i gydrannau'n fanwl ac yn profi eu cynhyrchion trwy eu cymharu â'r manylion dylunio gwreiddiol. Maent yn gwerthuso eu dyluniadau'n feirniadol fel y maent yn eu datblygu ac yn eu mireinio, neu ar y llaw arall, yn eu dechrau o'r newydd pan gânt syniadau gwell. Dengys y dyluniadau gorau safbwyntiau gwahanol, dewis da o ddefnyddiau a thechnegau cynhyrchu da.

Diffygion

- 196 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Hanes

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 197 Mae gan yr holl ddisgyblion ymwybyddiaeth ddatblygol ynghylch newidiadau sy'n digwydd dros gyfnod o amser. Trwy astudio hanes mewn cyd-destun Cymreig, gwyddant sut mae bywyd yng Nghymru wedi newid. Defnyddiant yn hyderus, eiriau cyffredin sy'n ymwneud â threigl amser yn y cyd-destun cywir. Mwynhânt wrando ar

storïau a galwant i gof a dadansoddant ffeithiau pwysig am rai o bersonoliaethau enwog hanes Cymru a Phrydain.

- 198 Mae dealltwriaeth yr holl ddisgyblion o brif nodweddion y cyfnodau a astudir ganddynt yn dda a medrant nodi a disgrifio newidiadau dros gyfnod o amser.
- 199 Defnyddia'r holl ddisgyblion fedrau TGCh yn effeithiol i gyflawni ymchwiliadau i bynciau hanesyddol.
- 200 Mae'r holl ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn craffu'n ofalus ar yr arteffactau diddorol a ddefnyddir fel symbyliadau yn y gwersi, a thrafodant hwy'n ddeallus, gan ddisgrifio'u pwrpas. Maent yn barod iawn i ofyn cwestiynau sy'n ymwneud â'r gorffennol.
- 201 Mae gan y disgyblion i gyd ddealltwriaeth dda o'r ffyrdd gwahanol sydd i'w cael i bortreadu'r gorffennol. Mae'r rhain yn cynnwys arddangosfeydd mewn amgueddfeydd, perfformiadau ysgol, ffotograffau, ffilmiau DVD, arteffactau, yn ogystal â safbwyntiau haneswyr a phobl leol.
- 202 Mae gan yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai hynaf yng nghyfnod allweddol 2, ymwybyddiaeth dda o gronoleg, a defnyddiant linellau amser yn effeithiol i hybu eu medrau ymresymu. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o brif agweddau bywyd yn yr holl gyfnodau maent yn eu hastudio. Mae gan yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o faterion hanesyddol sy'n perthyn i Gymru ac o hanes mewn cyd-destun lleol.
- 203 Mae'r holl ddisgyblion yn trafod y newidiadau yn yr ardal leol a'r ardaloedd amgylchynol dros gyfnod o amser gan gyfeirio'n benodol at newidiadau mewn adeiladau, dillad a'u hysgol. Mae cyfeiriadau gan yr holl ddisgyblion at y Cwricwlwm Cymreig mewn perthynas â'u bro yn amlwg iawn gan gynnwys canmlwyddiant yr ysgol a man geni'r Esgob William Morgan, sef Tŷ Mawr.
- 204 Mae gan yr holl ddisgyblion wybodaeth dda am nodweddion cymdeithas yn y cyfnodau y maent yn eu hastudio. Gwyddant am yr amodau byw yn ystod y cyfnod ac maent yn hyderus wrth gynnal ymholiad hanesyddol mewn grwpiau, parau ac fel unigolion. Maent yn recordio'r elfennau ymholiadol hyn yn dda ar ffurf DVD.

Diffygion

- 205 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Celf

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 206 Ar draws y ddau gyfnod allweddol, mae gan yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i greu a defnyddio amrywiaeth o gyfryngau gwahanol. Yng nghyfnod allweddol 1,

dealla'r disgyblion sut i gymysgu lliwiau a sut mae defnyddio hynny mewn amrywiaeth o dechnegau gwahanol.

- 207 Wrth baentio neu fraslunio bywyd llonydd, dengys yr holl ddisgyblion fod ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r angen am fanylder. Dehonglant ffurf a chysgod yn effeithiol.
- 208 Mae'r holl ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn efelychu a dehongli arddulliau artistiaid yn dda, gan gynnwys Rousseau, Picasso a'r arlunydd haniaethol o Gymru, Catrin Williams.
- 209 Yn y ddau gyfnod allweddol, arbrofa a defnyddia'r holl ddisgyblion dechnegau gwahanol yn effeithiol iawn wrth ddefnyddio sialc, pasteli a chreionau i gynhyrchu effeithiau gwahanol. Maent yn dda iawn am fraslunio'n fanwl gywir, gan ddefnyddio arlliw a chymhlethiad yn effeithiol.
- 210 Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r holl ddisgyblion, yn ôl eu hoed a'u gallu, yn creu patrymau effeithiol gan ddefnyddio defnyddiau sy'n cynnwys ffenestri gwydr lliw. Dilynant dechnegau artistig yn ofalus er mwyn creu cynnyrch gorffenedig da.
- 211 Yn y ddau gyfnod allweddol, defnyddia'r holl ddisgyblion amrywiaeth o gyfryngau gwahanol i gynhyrchu gwrthrychau tri dimensiwn. Ymchwiliant yn dda i briodweddau defnyddiau gwahanol wrth gyflawni'r broses artistig hon.
- 212 Dealla'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 bwysigrwydd cynllunio cyn creu. Deallant sut i ddatblygu cyfres o frasluniau a chynlluniau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r modd y mae artistiaid yn gweithio, a defnyddiant eirfa briodol wrth werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.
- 213 Yng nghyfnod allweddol 2, arsylwa'r holl ddisgyblion yn ofalus wynepryd unigolyn mewn darlun a baentiwyd o ffotograff. Cynlluniant ludwaith yn effeithiol, gan ystyried yn ofalus sut mae trefnu'r defnyddiau ar lefelau gwahanol ac mewn persbectif.
- 214 Dealla'r holl ddisgyblion sut i ddatblygu effaith tri dimensiwn trwy ddefnyddio defnyddiau gwahanol a lliwiau cyferbyniol.

Diffygion

- 215 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Addysg gorfforol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 216 Dealla'r holl ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol bwysigrwydd 'cynhesu' cyn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac o 'ymlacio ac oeri' ar ôl hynny. Sylweddolant fod ymarfer corfforol yn achosi newid yn y modd y mae eu cyrff yn gweithio.

- 217 Yn y ddau gyfnod allweddol, sylweddola'r disgyblion i gyd fod ymarfer rheolaidd yn dda iddynt. Arddangosant ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd sicrhau bod y gweithgareddau'n ddiogel a heb berygl.
- 218 Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, mae gwybodaeth a dealltwriaeth yr holl ddisgyblion o fedrau addysg gorfforol wedi eu sefydlu'n dda. Mae'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwybodol o siâp corfforol da ac ymddaliad.
- 219 Yng nghyfnod allweddol 2, dealla'r holl ddisgyblion oblygiadau gweithio mewn lle cyfyng pan fyddant yn defnyddio offer gymnasteg. Cydweithredant yn barod mewn gweithgareddau grŵp, a dangosant lefelau uchel o ofal ac o ystyriaeth tuag at ei gilydd. Cynorthwyant ei gilydd i lwyddo trwy ddangos i'w cyd-ddisgyblion yr hyn a wnânt o'i le a sut y dylent addasu eu technegau.
- 220 Mae'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gemau tîm. Dengys yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gystadlu'n deg ac i arddangos hynawsedd y sbortsmon wrth ennill neu gollu. Ceir ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at gymryd rhan a chystadlu.
- 221 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r holl ddisgyblion yn ymateb yn dda i gerddoriaeth daro a symud creadigol. Maent yn cynllunio ac yn mireinio eu perfformiadau'n dda, er enghraifft mewn perfformiadau gymnasteg.
- 222 Dengys disgyblion o wahanol oedrannau ddealltwriaeth dra datblygedig o'r modd y mae ymgymryd â rolau arbennig a sut mae dangos y gwahanol symudiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hwynt. Gwyddant sut i addasu'n fyrfyr er mwyn cael canlyniadau llwyddiannus.
- 223 Ar draws y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn gwerthuso ac yn asesu eu cyflawniadau eu hunain, a rhai eu cyfoedion, yn deg ac adeiladol. Mae'r disgyblion i gyd yn medru nodi'r hyn y maent yn ei hoffi yn ogystal â'r hyn sy'n peri anawsterau iddynt.

Diffygion

- 224 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cydnabod ein bod, yn bennaf wedi cynnal safonau uchel ers ein harolygiad diwethaf ac wedi gwella safonau mewn pynciau fel Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol a Dylunio a Thechnoleg. Roeddem yn falch fod yr arolygwyr wedi canfod bod agweddau disgyblion tuag at eu gwaith a'u gallu i gydweithio yn nodweddion da iawn. Nodir hefyd bod y berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn arbennig o dda gan greu awyrgylch gadarnhaol a phwrpasol er mwyn galluogi'r plant i ddod yn ddysgwyr da ac effeithiol. Cydnabyddir safonau addysgu uchel, medrusrwydd ac ymroddiad ein hathrawon a gofal a doniau staff ategol yn haeddiannol. Yn ogystal â hyn, dywedir bod yr adeilad yn addas i bwrpas a'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian. Yn bwysicaf oll, mae'r adroddiad yn pwysleisio'r elfennau sy'n gwneud yr ysgol yr hyn ydyw, sef creu ysgol hapus a diogel i'n disgyblion fagu hyder ac annibyniaeth ynddi.

Bydd cynllun gweithredu yn cael ei lunio i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad. Yn ôl yr Adroddiad mae'r safonau yn gyffredinol dda, ond bydd rhaid darparu cyfleoedd i wella sgiliau ymholi'r plant hyn mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Bydd yr agweddau hyn yn cael eu cynnwys yn y CDY. Yn ogystal â hyn byddwn yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan weithredol wrth osod targedau iddynt eu hunain. Bwriedir cydweithio gydag ysgolion cynradd lleol a'r ysgol uwchradd i ddatblygu dulliau asesu a chymedrol. Yn ogystal byddwn yn datblygu swyddogaeth y Cyngor Ysgol.

Lle bo'n bosibl gwneud hynny, bydd y Staff a'r Llywodraethwyr yn mynd i'r afael a'r argymhellion cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Anfonir copi o gynllun gweithredu'r ysgol mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad i'r holl rieni. Bydd Adroddiad Blyneddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni yn adrodd ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran argymhellion yr arolygiad.

Dymuna'r ysgol gydnabod ymagwedd drylwyr, broffesiynol a chwrtais y tîm arolygu.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Penmachno
Math o ysgol	Cynradd gan gynnwys Cyfnod Sylfaen
Ystod oedran y disgyblion	3 - 11
Cyfeiriad yr ysgol	Penmachno, Betws-y-coed Conwy
Cod post	LL24 0PT
Rhif ffôn	01690 760394

Pennaeth	Mrs J Hughes
Dyddiad penodi	01/09/05
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mr E Owain
Arolygydd cofrestredig	Mr N Jones
Dyddiadau'r arolygiad	09/03/09 – 11/03/09

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	2.5	3	1	1	4	2	7	2	22.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	2	1	2.4

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	10.4:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	5:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	D/B
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	10
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2008	79.2	95.9	94.9
Haf 2008	82.7	85.4	93.3
Gwanwyn 2008	94.0	89.3	93.7

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	10
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008	Nifer y disgyblion yn B2	4
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno		

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008	Nifer y disgyblion yn B6	7
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl aseiad athro		yn ôl prawf	
Yn yr ysgol	86%	Yn yr ysgol	D/B
Yng Nghymru	75%	Yng Nghymru	D/B

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Roedd tîm o dri arolygydd yn bresennol yn yr ysgol am chwe diwrnod arolygu. Cynaliasant yr arolygiad gydag enwebai o'r ysgol .
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda rhieni a'r corff llywodraethu i drafod bywyd a gwaith yr ysgol. Cynhaliwyd cyfarfod cyn-arolygiad ar gyfer y tîm hefyd.
- Cwblhawyd saith holiadur gan rieni a dadansoddwyd hwy'n ofalus.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth a'r staff â chyfrifoldebau, yn ogystal â staff cymorth.
- Archwiliwyd dogfennaeth yr ysgol ac enghreifftiau o waith y disgyblion.
- Arsylwyd pedair ar ddeg o wersi neu sesiynau.
- Archwiliwyd enghreifftiau o waith y disgyblion ar draws yr holl ystod gallu ymhob grŵp oedran.
- Gwrandawodd arolygwyr ar sampl o ddisgyblion o bob grŵp blwyddyn yn darllen ac yn ateb problemau mathemategol y pen.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion am eu gwaith ac am fywyd yr ysgol.
- Arsylwyd ymddygiad y disgyblion yn ystod cyfnodau egwyl, amser cinio ac ar ddechrau a diwedd sesiynau'r ysgol.
- Bu'r arolygwyr yn bresennol yn y cyfarfodydd asembli ac arsylwyd gweithgareddau perthnasol eraill.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethu.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Nicholas Jones (Arolygydd Cofrestredig)	Cyd-destun Crynodeb ac Argymhellion Cyfraniadau at Gwestiynau Allweddol 1, 4, & 5 Cwestiwn Allweddol 6 Cwestiwn Allweddol 7 Atodiadau Saesneg Hanes Celf Addysg Gorfforol
Mr Eifion Morgan (Arolygydd Tîm)	Cwestiwn Allweddol 2 Cwestiwn Allweddol 3 Cyfraniadau at gwestiwn Allweddol 4 Gwyddoniaeth Dylunio a thechnoleg
Mr Dylan Jones (Arolygydd Lleyg)	Cyfraniadau at Gwestiynau Allweddol 1, 4 & 5
Mrs J Hughes (Enwebai)	Cyfraniadau at bob Cwestiynau Allweddol

Cydnabyddiaeth:

Dymuna'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, y staff a'r disgyblion am eu croeso, cydweithrediad a chwarteisi yn ystod yr arolygiad.

Contractwr:

Partneriaeth Dyfri Partnership
Awel Tywi
Llanymddyfri
Sir Gaerfyrddin
SA20 0EX